O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1636 (Cy. 210)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Y Ffin Sirol yn Halfway i Gylchfan Tarell, Aberhonddu, Powys) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*22 Mehefin 2012*
Yn dod i rym	*1 Gorffennaf 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Rhaglan – Llanymddyfri (A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd gael ei gyfyngu a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall,**(2)** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2012. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Y Ffin Sirol yn Halfway i Gylchfan Tarell, Aberhonddu, Powys) (Cyfyngu a Gwahardd Traffig Dros Dro) 2012.

2.—1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 08:00 o'r gloch ar 1 Gorffennaf 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau o gefnffordd yr A40 yn Sir Powys rhwng y ffin sirol yn Halfway a Chylchfan Tarell, Aberhonddu, a ddisgrifir yn Atodlen y Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd.

6.Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd yn ystod yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 ar waith.

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond yn ystod yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad a'r gwaharddiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

8. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 22 Mehefin 2012

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ATODLEN

1. Trallong i Fferm Cellar – Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 300 metr i'r dwyrain o bwynt canol ei chyffordd â'r C0052, hyd at bwynt canol ei chyffordd â'r C0051.

2. Pen-pont i Ben-wern – Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 400 metr i'r gorllewin o bwynt canol ei chyffordd â'r C0163, hyd at bwynt 410 metr i'r dwyrain o bwynt canol ei chyffordd â'r C0053.

3. Trofa Pen-wern – Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 600 metr i'r gogledd o bwynt canol y fynedfa i'r eiddo o'r enw Penwern, hyd at bwynt 110 metr i'r de o bwynt canol ei mynedfa i'r eiddo o'r enw Penwern.